

Datganiad o Ddiben GLIO 2019

Wedi'i ddiweddarau 7/12/22 gan Nick Haake



Ynglŷn â'r Darparwr

Darparwr Gwasanaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Unigolyn Cyfrifol	Linda Woodley
Rheolwr y Gwasanaeth	Nick Haake
Enw'r Gwasanaeth	Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion
Cyfeiriad y gwasanaeth	Hen Goleg College Fields Close Y Barri CF62 8LF Ffôn: 01446 731105 Canolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr
Cyfeiriad Perthnasol Arall	Llys Tredwr Parc Manwerthu Picton Court Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3XX

Disgrifiad o leoliad y gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion Bro Morgannwg yn darparu lleoliadau hirdymor, seibiannau byr, hir a brys, a chymorth sesiynol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr, yng nghartrefi gwestywyr Lleoliadau Oedolion.

Y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

Ystod o anghenion yr unigolion y gallwn eu cefnogi

Mae Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion (GLIO) Bro Morgannwg yn darparu lleoliadau hirdymor, seibiannau byr a hir a brys, a chymorth sesiynol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Hwylusir y trefniant rhanbarthol hwn drwy gytundeb partneriaeth cyfreithiol. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gelwir y gwasanaeth hefyd yn 'Cysylltu Bywydau'. Mae'r GLIO yn recriwtio, yn hyfforddi ac yn goruchwylio gwestywyr i gefnogi unigolion ag anghenion ychwanegol fel:

- Pobl ag anableddau dysgu
- Pobl ag Awtistiaeth
- Pobl â phroblemau iechyd meddwl

- Pobl â phroblemau iechyd corfforol
- Pobl â nam ar eu synhwyrau
- Pobl â dementia

Mae anghenion y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn hollbwysig, a'r nod cyffredinol yw cefnogi pobl i gyflawni eu nodau a'u deilliannau personol fel y nodwyd yn eu Asesiad Oedolion a'u Cynllun 'Amdana i'. Trwy wneud hyn, mae'r gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn hyrwyddo:

- Lles emosiynol, corfforol ac ysbrydol, gan gefnogi pobl i deimlo'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed.
- Llais a rheolaeth dros fywyd bob dydd.
- Galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl er mwyn iddyn nhw allu byw y bywyd gorau posib.
- Ymgysylltu a mynediad at gymunedau lleol.
- Cefnogaeth i gael cyfleoedd ystyrlon yn ystod y dydd a chyflogaeth.
- Profiadau bywyd mewn amgylcheddau cartrefol.

Bydd pob person yn derbyn un neu fwy o'r gwasanaethau canlynol yng nghartref gwestywr:

- Cymorth a llety hirdymor
- Seibiannau byr a hir gan roi hoe i ofalwyr teuluol a gwestywyr hirdymor o'u rolau gofalu tra'n galluogi unigolion i brofi gwahanol westywyr ac amgylcheddau teuluol.
- Lleoliadau brys i gefnogi unigolion/teuluoedd/gofalwyr pan fo angen brys. Mae hyn yn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â'r anawsterau sy'n codi gydag unigolion a theuluoedd mewn amgylchedd annibynnol, â chymorth.
- Cymorth sesiynol
- Gofal personol lle bo angen.

Os yw person yn gofyn am addasiadau i'r cartref neu offer arbenigol, darperir y rhain yn dilyn asesiad gan weithiwr proffesiynol perthnasol a'u gosod a'u harchwilio yn ôl canllawiau'r gwneuthurwr.

Ystod oedran pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Mae'r Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion ar gael i bobl dros 18 oed.

Sut mae'r Gwasanaeth yn cael ei ddarparu

Mae pobl yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed, mae ganddyn nhw ddewis am eu gofal a'u cymorth ac mae cyfleoedd ar gael iddyn nhw.

Mae anghenion y person sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn hollbwysig. Disgwylir y bydd y cymorth a ddarperir gan y Gwestywr Lleoliadau i Oedolion yn cyflawni'r amcanion a ddisgrifir yng nghynllun 'Amdanaf i' yr unigolyn. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar y canlyniadau lles a nodwyd drwy'r Asesiad Oedolion a chynllun Gofal a Chymorth y person. Dylai'r gwasanaethau a gynigir i berson mewn Lleoliad Oedolion hyrwyddo ymreolaeth, cyrhaeddiad, dinasyddiaeth, unigolrwydd, amrywiaeth, lles a chynhwysiant.

Mae pobl yn hapus ac yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u datblygiad parhaus a'u lles cyffredinol.

Mae darparu profiadau bywyd normadol mewn amgylchedd cartrefol yn cydnabod yr angen i gynnig presenoldeb cymunedol i bobl, mwy o hunanddibyniaeth, annibyniaeth, urddas a rhyddid i ddewis, i hyrwyddo lles corfforol a meddyliol unigolyn. Dylai rôl cymorth y gwestywr ganolbwyntio ar yr elfennau canlynol, nad ydynt wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth:

- **Ymreolaeth-** Hyrwyddo ymreolaeth unigol, hunan-benderfyniad a dewis, a rheolaeth dros wneud penderfyniadau. Cynnig cyfleoedd i wella annibyniaeth ariannol.
- **Dinasyddiaeth** - Hyrwyddo cynnal hawliau sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth o dan y gyfraith, gan gynnwys amddiffyniad rhag gwahaniaethu, aflonyddu a thriniaeth sy'n diraddio neu sy'n annynol.
- **Cynhwysiad-** Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd drwy gynnig cyfleoedd i ymuno â bywyd yn y cartref a'r gymuned leol a chyfrannu ato, gan gynnwys cymorth i ddilyn hobiau, cyfleoedd dydd, gwirfoddoli a chyflogaeth.
- **Cyrhaeddiad-** Cydnabod gallu unigol a photensial ar gyfer datblygiad personol, a cheisio lleihau effaith rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol i gyflawni potensial.
- **Lles-** Hyrwyddo lles corfforol, emosiynol ac ysbrydol ac osgoi creu dibyniaeth, trwy ddarparu cymorth priodol i fynychu apwyntiadau iechyd a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol.
- **Unigoliaeth-** Parchu unigolrwydd, preifatrwydd ac urddas, a chynnal hunan-barch ym mhob sefyllfa.

- **Amrywiaeth-** Hyrwyddo parch at amrywiaeth oedran, ethnig a diwylliannol, a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.

Mae arfer da mewn Lleoliadau Oedolion yn cael ei hyrwyddo gan weithwyr a Lleoliadau Oedolion

Y gwestywyr yn cynnal yr egwyddorion a'r gwerthoedd fel yr amlinellir, a'r unigolion a leolwyd

yn gallu mynegi eu hanghenion, eu canlyniadau dymunol, eu barn a'u dymuniadau.

Dylai'r

unigolyn, y Gwestywr Lleoliad Oedolion, y gweithiwr GLIO a'r rheolwr achos i gyd weithio gyda'i gilydd i

gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Bydd gan bobl ran yn y broses o nodi sut maen nhw eisiau cael eu cefnogi, gan gynnwys y gefnogaeth sydd ei hangen i'w galluogi i deimlo'n ddiogel. Bydd hyn yn rhan o'u Hasesiad Oedolion a'u cynllun 'Amdana i' a bydd unrhyw risgiau a nodwyd yn cael eu hasesu, ac os oes angen caiff mesurau cymorth ychwanegol eu rhoi ar waith.

Cyn belled ag y bo modd, bydd pobl yn cael eu cefnogi i reoli risg mewn modd cadarnhaol, parchus a diogel, gan gynnwys annibyniaeth ac urddas pobl.

Bydd gwestywyr ac aelodau eraill o'r teulu sy'n byw yn y cartref yn destun gwiriadau cyfeirio a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) i sicrhau nad oes rhesymau hysbys pam na ddylent gefnogi pobl ag anghenion ychwanegol, a hynny cyn iddyn nhw gael eu hasesu. Bydd gweithiwr prosiect Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion yn ymchwilio i unrhyw ddatgeliadau cadarnhaol, a bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyfeirio at y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Diogelu yng Nghyngor Bro Morgannwg. Gwneir penderfyniad ynghylch priodoldeb person i weithredu fel gwestywr ac unrhyw argymhellion ychwanegol, yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod rheoli gwasanaethau i oedolion.

Mae'r Gwasanaeth Lleoliadau i Oedolion yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu cyfreithiol fel y nodir yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a pholisïau a phrosesau diogelu Bro Morgannwg. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u dyletswydd i gyflwyno adroddiad i dîm diogelu'r awdurdod lleol lle mae achos rhesymol dros amau bod oedolyn mewn perygl. Mae hyfforddiant diogelu Staff Lleoliadau Oedolion yn ofyniad gorfodol ac yn cael ei ddarparu drwy'r adran hyfforddiant. Mae gwestywyr yn cael hyfforddiant diogelu fel rhan o'u rhaglen sefydlu, gyda hyfforddiant gloywi yn cael ei ddarparu fel rhan o raglen hyfforddi parhaus y gwestywr. Gall gwestywyr gyrchu cymorth yn ystod oriau swyddfa gan y Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion gyda chymorth gyda'r nos a'r penwythnos mewn argyfwng ar gael gan y Tîm Dyletswydd Brys.

Trefniadau ar gyfer asesu a chynllunio Lleoliad Oedolion pobl.

Nodir a oes modd bodloni canlyniadau personol person gan y gwasanaeth, drwy atgyfeiriad. Rheolwr achos yr unigolyn sy'n gwneud atgyfeiriad, gan ddefnyddio eu

Asesiad Oedolion, eu Cynllun Gofal a Chymorth, Asesiad Risg ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall megis adroddiadau Lleferydd ac Iaith neu Iechyd Galwedigaethol. Bydd gweithwyr prosiect y Gwasanaeth Lleoliad Oedolion yn defnyddio dogfennau asesu ochr yn ochr â gwybodaeth a ddarperir gan yr unigolyn a'u teulu, i gwblhau Cynllun 'Amdanaf i'. Bydd y Cynllun 'Amdana i' yn seiliedig ar y canlyniadau llesiant a nodwyd trwy Asesiad Oedolion a Chynllun Gofal a Chymorth yr unigolyn, ac mae'n cael ei ddefnyddio i lywio'r broses baru rhwng gwestywyr ac unigolion sydd angen gwasanaeth.

Bydd gweithwyr prosiect yn gweithio gyda phobl a gwestywyr a nodwyd i drefnu ymweliadau rhagarweiniol cyn unrhyw arhosiad dros nos i sicrhau eu bod yn gydnaws â'i gilydd, ac unrhyw unigolion eraill sy'n byw gyda gwestywyr. Bydd y gweithwyr prosiect yn cyflwyno pobl i fwy nag un gwestywr pryd bynnag y bo modd fel bod yna ddewis o fewn y broses baru. Lle mae angen lleoliadau brys bydd y gwasanaeth Lleoliadau Oedolion yn sicrhau bod y broses ganlynol yn cael ei dilyn:

- Rhoi'r holl wybodaeth berthnasol i'r Gwestywr Lleoliad Oedolion am anghenion y person cyn unrhyw leoliad brys.
- Sicrhau bod ffurflen atgyfeirio brys wedi'i derbyn cyn i leoliad brys gychwyn.
- Sicrhau bod y tîm cyfeirio yn nodi unrhyw risgiau neu risgiau posibl i'r Gwestywr Lleoliadau Oedolion a/neu deulu y Lletywyr Lleoliadau Oedolion.
- Sicrhau bod y person yn hysbys i'r tîm cyfeirio a'u bod yn gallu rhoi gwybodaeth sy'n cefnogi lleoli'r person mewn Lleoliad Oedolion.
- Sicrhau bod y Cytundeb Lleoli Unigol yn cael ei gwblhau o fewn 5 diwrnod gwaith o ddechrau'r lleoliad brys. Os yw'r lleoliad am barhau y tu hwnt i 5 diwrnod gwaith mae'n rhaid cwblhau Cynllun 'Amdanaf i'.
- Sicrhau nad yw Lleoliadau Brys yn parhau y tu hwnt i 28 diwrnod. Os yw'n debygol y bydd angen parhau i wneud hynny bydd asesiad yn cael ei gynnal i ystyried lleoliad parhaol.

Trefniadau ar gyfer adolygu Lleoliad Oedolion pobl

Bydd pob lleoliad hirdymor yn destun adolygiad ffurfiol yn flynyddol, neu pan fydd ei angen oherwydd newid mewn anghenion neu amgylchiadau. Dylai pobl sy'n cymryd rhan fel arfer gynnwys y person, y Gwestywr/Gwestywyr Lleoliad Oedolion, y gweithiwr GLIO a'r rheolwr achos. Lle bo'n briodol, gofynnir am farn perthynas, ffrind neu eiriolwr y person ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall sydd â chysylltiad o bwys.

Bydd lleoliadau hirdymor hefyd yn cael eu hadolygu gyda'r person yn annibynnol o'r Gwestywr Lleoliad i Oedolion a gyda chefnogaeth gan deulu/eiriolwyr os gofynnir amdanynt/os oes angen, yn flynyddol neu'n amlach os oes angen.

Caiff lleoliadau seibiant newydd eu hadolygu i ddechrau yn ystod neu ar ddiwedd y lleoliad. Unwaith y bydd lleoliad seibiant yn cael ei sefydlu ac yn parhau, caiff y lleoliad

hwn ei adolygu'n flynyddol neu pan fydd ei angen oherwydd newid mewn anghenion neu amgylchiadau. Caiff lleoliadau ychwanegol a gynorthwyr eu hadolygu'n flynyddol.

Lle nad yw lleoliadau'n diwallu anghenion a nodwyd mwyach, eir i'r afael â phryderon o fewn y strwythur adolygu a chytunir ar gamau priodol. Os yw'r adolygiad yn argymhell dod â lleoliad i ben, bydd yr Awdurdod yn cynnig gwasanaeth amgen i'r person o fewn amserlen gynlluniedig sydd fel arfer yn gyfnod o 28 diwrnod. Bydd taliadau a chyfrifoldebau yn dod i ben ar ddiwrnod olaf y lleoliad.

Ymgynghoriad a Chynhwysiant

Trwy gydol camau cynllunio, asesu, darparu ac adolygu'r broses leoli, mae'r person sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrth ei galon. Mae unigolion yn cael eu hannog i gymryd rhan lawn a dweud beth sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hyrwyddo ymreolaeth unigol, hunan-benderfyniad a dewis, a rheolaeth dros wneud penderfyniadau yn werthoedd craidd y gwasanaeth.

Safon y Gofal a Chymorth

Bydd y sawl sy'n cynnig Lleoliadau i Oedolion yn cael yr holl wybodaeth berthnasol am yr unigolyn sy'n cael ei ystyried ar gyfer y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r gwestywr i roi ystyriaeth lawn i p'un a ydynt yn gallu darparu'r cymorth priodol i'r person sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n hyrwyddo ei les a'i ganlyniadau personol ai peidio.

Rhoddir hyfforddiant a chefnogaeth i westywr i ddatblygu eu sgiliau, eu gwbyodaeth a'u dealltwriaeth o ofynion y gwasanaeth, dulliau priodol o gefnogaeth a'r angen i hybu annibyniaeth a lles unigolion mewn modd nad yw'n farnol.

Ar ôl cael eu cymeradwyo, bydd gwestywr yn derbyn Cytundeb Lleoliad i Oedolion i Westywr. Mae hyn yn rhoi manylion llawn am y Gwasanaeth Lleoliad i Oedolion a'r cymorth y gall gwestywr ddisgwyl ei dderbyn, yn ogystal â'r gefnogaeth y mae disgwyl iddynt ei darparu. Mae'r ddogfen hon yn cael ei llofnodi gan y gwestywr a'r gweithiwr Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion cyn i leoliad ddechrau. Mae pob gwestywr Lleoliadau Oedolion wedi cael eu recriwtio, eu hasesu, eu hyfforddi a'u cymeradwyo'n benodol gan y Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion i gynnig cefnogaeth a llety ac mae disgwyl iddynt weithio'n unol â sail gwerthoedd y gwasanaeth.

Mae staff y Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion yn monitro ac yn goruchwyllo'n ffurfiol yn ogystal â bod ar gael yn ystod oriau swyddfa i ateb unrhyw ymholiadau allai fod gan westywr. Y tu allan i oriau swyddfa ac mewn achosion o argyfwng, gellir cysylltu â'r Tîm Dyletswydd Argyfwng. Rhoddir y manylion cyswllt perthnasol i bob gwestywr.

Mae statws cymeradwyo'r gwestywr Lleoliad Oedolion yn destun adolygiad blynyddol a chlywir safbwyntiau yr unigolyn(ion) sy'n cael eu cefnogi a pherthnasau a gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â nhw. Mae proses ail-gymeradwyo'r gwestywr yn cael ei chynnal gan banel annibynnol bob dwy flynedd.

Mae gweithwyr Lleoliadau Oedolion yn cynnal ymweliadau blynyddol dirybudd i gwblhau archwiliadau eiddo ynghyd â gwiriadau dogfennau fel rhan o'r broses o sicrhau bod arferion a safonau da yn cael eu cynnal bob amser.

Os oes methiant ar ran y Gwestywr Lleoliad Oedolion i gynnal safonau derbyniol, fel yr amlinellir yn y Cytundeb Gofalwyr neu os oes pryderon ynglŷn â 'chywirdeb a chymeriad da' y Gwestywr Lleoliadau Oedolion neu ffitrwydd i ddarparu'n ddigonol i'r person mewn lleoliad, cynhelir Adolygiad Gwestywr a'i gyflwyno i'r Panel Cymeradwyo Annibynnol i'w ystyried. Bydd hyn hefyd yn ystyried anghenion a dymuniadau'r person sydd wedi'u lleoli.

Gall camymddwyn difrifol neu fethiant esgeulus i gydymffurfio â'r Cytundeb Gwestywr yn ystod cyfnod y contract fod yn sail i derfynu'r lleoliad ac arwain at dynnu'r Gwestywr Lleoliad Oedolion o'r Rhestr Gymeradwy, heb i rybudd gael ei roi na'i gyflwyno i'r Panel Cymeradwyo.

Anghenion Iaith a Chyfathrebu y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Caiff pobl eu cefnogi i gyfathrebu gan ddefnyddio dull ac iaith o'u dewis.

Bydd gwestywyr yn cael unrhyw hyfforddiant cyfathrebu arbenigol sydd ei angen i ddiwallu anghenion penodol unigolyn.

Bydd anghenion cyfathrebu, cefnogaeth sy'n ofynnol ac iaith ddewisol person yn cael ei nodi yng Nghynllun 'Amdanaf i' yr unigolyn.

Fel gwasanaeth, mae Lleoliad Oedolion yn mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg, gyda galwadau yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog a chyfle yn cael ei gynnig i bobl gyfathrebu yn Gymraeg. Bydd siaradwyr Cymraeg ar gael i bobl sy'n gofyn am eu hasesiad yn Gymraeg a chaiff lleoliadau eu canfod i ddiwallu'r angen hwn.

Trefniadau Rheoli a Staffio

Strwythur Gweithredol:

Rheolwr Gweithredol ac Unigolyn Cyfrifol:

Linda Woodley
Swyddfa'r Dociau
Heol yr Isffordd
Bro Morgannwg
CF63 4RT
Ffôn: 01446 704802

Cymwysterau:

- MA/DipSW
- Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm.
- Gweithiwr cymdeithasol cymeradwy
- PQ2-6
- BA Anrh 2:1 Cymdeithaseg/Gwleidyddiaeth

Profiad:

- Rheolwr Gweithredol - Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
- Rheolwr Gweithredol Caerdydd a'r Fro - Anableddau Dysgu
- Rheolwr Tîm – Anableddau Dysgu
- Uwch Weithiwr Cymdeithasol Pontio
- Gweithiwr Cymdeithasol/Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy - Tîm Anableddau Dysgu
- Gweithiwr Cymdeithasol/Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy - Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn
- Darlithydd mewn Gwaith Cymdeithasol - UWIC
- Gweithiwr Cymdeithasol - Tîm Iechyd Meddwl Oriau Estynedig
- Gweithiwr Cymdeithasol Gwirfoddol yn Rwsia - Gwasanaethau Gwirfoddol Dramor
- Rheolwr Cynorthwyol - MIND
- Gweithiwr Cymorth - MIND
- Cymorth i Ddiodefwyr/Gwirfoddolwr Ymosodiadau Rhywiol
- Gofalwr Cartref Preswyl/Nyrsio

Y Rheolwr:

Nick Haake
Canolfan Adnoddau'r Hen Goleg
College Fields Close
Y Barri
CF62 8LF
Ffôn: 01446 731105

Cymwysterau:

- FfCCh Lefel 5 Rheolaeth ac Ymarfer Uwch
- BA (Anrh) Seicoleg/Cymdeithaseg

Profiad:

- Rheolwr Ardal – y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
- Rheolwr Lleol – y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
- Rheolwr Cofrestredig – Charter Housing
- Cydlynnydd Gwasanaeth Dydd – Gwasanaethau Datblygiadol California

Gweithwyr Prosiect x 7

- Cymhwyster Iechyd/Gofal Cymdeithasol Addas:
- BSc Gwaith Cymdeithasol/DipSW
- RMNH/Nyrs Anableddau Dysgu Gofrestredig
- Cymhwyster Rheoli Iechyd a Chymdeithasol (Lefel 4 NVQ neu gymhwyster cyfatebol)

Swyddog Gofal Cymdeithasol x 1

- Cymhwyster Iechyd/Gofal Cymdeithasol Addas:

- NVQ Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu gymhwyster cyfatebol

Gweinyddwr Gwasanaeth x 1

- NVQ Lefel 3 Gweinyddu Busnes

I gynnig arweinyddiaeth effeithiol, rydym yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod y rheolwr cofrestredig wedi cymhwyso, yn gymwys ac yn brofiadol i ymgymryd â'r rôl.
- Anelu at ddull rheoli sy'n creu awyrgylch agored, cadarnhaol a chynhwysol ac sy'n ffafriol i gyfathrebu effeithiol.
- Sicrhau monitro effeithiol o'r gwasanaethau a ddarperir.
- Rheoli materion y gwasanaeth yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau'r Adran a'r Cyngor a Gofynion a Safonau Deddfwriaethol.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac o ansawdd.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei ledaenu'n effeithiol.
- Cadw cofnodion cyfoes a chywir ar bob agwedd o'r gwasanaeth
- Sicrhau bod staff yn mynychu cyfarfodydd staff misol a hyfforddiant perthnasol.
- Sicrhau bod staff yn dangos proffesiynoldeb a pharch i westywr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Trefniadau goruchwyllo

Mae'r holl weithwyr yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol yn unol â Pholisi Goruchwyllo Cyngor Bro Morgannwg.

Hyfforddiant i Staff

Mae pob gwestywr a staff yn cael hyfforddiant gorfodol sy'n briodol i'w rolau. Mae matricesau hyfforddi yn sicrhau bod gofynion hyfforddi gwestywr a staff yn cael eu monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyrtsiau gorfodol.
Gwahoddir gwestywr i fynychu hyfforddiant trwy gydol y flwyddyn.
Nodir anghenion hyfforddi pellach yn ystod cyfarfodydd goruchwyllo ac arfarnu.

Cyfleusterau a Gwasanaethau

Cyfleusterau i storio cofnodion

Caiff yr holl gofnodion eu storio drwy 'Content Manager': system ffeilio ar gyfrifiadur sy'n cael ei defnyddio o fewn Awdurdod Lleol Bro Morgannwg. Mae copïau wedi'u llofnodi o ddogfennau yn cael eu sganio a'u cadw i ffeiliau unigol a chaiff copïau papur eu dinistrio.

Dim ond ar sail angen gwybod y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei rhannu a hynny gyda chydsyniad y person y mae'n ymwneud ag ef. Pan nad oes gan berson y gallu i wneud hynny, bydd hyn yn destun penderfyniad er y budd gorau.

	<p>Mae e-byst sy'n cael eu hanfon rhwng awdurdodau lleol yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel. Anfonir negeseuon e-bost allanol trwy Egress, i sicrhau bod data'n cael ei drosglwyddo'n ddiogel.</p>
<p>Cyfleusterau i gyfarfod unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth</p>	<p>Bydd gweithwyr Lleoliadau Oedolion sydd wedi'u dyrannu yn cwrdd yn rheolaidd â gwestywyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n ddibynnol ar ddymuniadau'r person sy'n derbyn y gwasanaeth a'r gwestywr, a'r math o gyfarfod sy'n digwydd.</p> <p>Mae gan ganolfan swyddfa'r Hen Goleg ystafelloedd cyfarfod at eu defnydd, fel sydd gan Swyddfa Pen-y-bont ar Ogwr.</p> <p>Mae ystafelloedd ar gael ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf.</p> <p>Gall cyfarfodydd gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth hefyd ddigwydd mewn lleoliadau llai ffurfiol lle bo hynny'n briodol, i gynnig lleoliad hamddenol sy'n fwy ffafriol i ymgysylltiad yr unigolyn.</p>
<p>Cyfleusterau i ddarparu hyfforddiant/cyfarfodydd staff</p>	<p>Mae hyfforddiant staff Lleoliadau Oedolion yn digwydd ar-lein ac mewn amrywiaeth o leoliadau'r Cyngor ac yn allanol. Cynhelir cyfarfodydd staff mewn ystafelloedd cyfarfod yn yr Hen Goleg a Chanolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr.</p> <p>Mae hyfforddiant i westywyr yn bennaf yn digwydd ar-lein ac yn ystod y nosweithiau mewn amrywiaeth o leoliadau cyngor a rhai sydd wedi'u harchebu'n allanol. Hysbysir gwestywyr am leoliadau/dyddiad/amser yr hyfforddiant o flaen llaw.</p> <p>Yn ogystal mae prynhawniau 'Dweud eich Dweud' blynyddol i roi cyfle i reolwyr a staff gwrdd â gwestywyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a chasglu awgrymiadau am welliannau i'r gwasanaeth.</p> <p>Mae cyfarfodydd cymdeithasol i ddathlu gwasanaeth a chyflawniadau unigolion yn digwydd yn flynyddol. Bydd y dyddiad/amser a'r lleoliad yn cael ei benderfynu gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.</p>

Trefniadau Llywodraethu a Monitro Ansawdd

Llywodraethu:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bro Morgannwg (CBM)



Pennaeth Gwasanaeth



Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Oedolion - Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl



Rheolwr Cofrestredig Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion

Bwrdd Gwasanaeth Lleoliadau Oedolion (Bywydau a Rennir) (BGLIO(BR)) sy'n cynnwys rheolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg fel y'u henwebwyd gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y ddau awdurdod lleol, sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y gwasanaeth.

Mae'r BGLIO(BR) yn cyfarfod bob chwarter ac yn gyfrifol am, ond heb fod yn gyfyngedig i'r gweithgareddau canlynol:

- Penderfynu ar gyfeiriad strategol y BGLIO(BR)
- Gosod, monitro ac adolygu safonau'r Gwasanaeth
- Penderfynu ar Gyllideb y BGLIO(BR), ac amcangyfrif y taliadau ar sail gwybodaeth resymol a ddarperir gan Bennaeth BGLIO(BR)
- Monitro'r Datganiad o Gyfrifon yn ymwneud â BGLIO(BR)
- Adolygu datganiad polisi iechyd a diogelwch y Fro yn unol â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac ati.
- Derbynnu adroddiad ar adborth (gan gynnwys canmoliaeth, cwynion a sylwadau) mewn perthynas â'r BGLIO(BR)
- Monitro Perfformiad
- Darparu goruchwyliaeth gyffredinol o ddarpariaeth y Gwasanaeth
- Sicrhau bod cyfarfodydd rheoli gwasanaethau yn digwydd yn rheolaidd

Monitro Ansawdd:

Mewn cydymffurfiaeth â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ac arweiniad statudol mae'r unigolyn Cyfrifol yn monitro ansawdd y gofal a'r cymorth yn ystod tri ymweliad misol.

Trefnir yr ymweliadau ymlaen llaw gyda'r Rheolwr Cofrestredig a chaiff gwahoddiad i westwyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth eu hanfon allan er mwyn iddynt gael y cyfle i gyfarfod â'r Unigolyn Cyfrifol yn ystod y cyfnod hwn. Derbynnir bod ymrwymadau gwestywyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn golygu na allant fod yn bresennol yn ystod y dydd, felly mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd wedi ymrwmo i drefnu ymweliadau cartref a mynychu digwyddiadau cymdeithasol er mwyn canfod barn y gwasanaeth.

Mae'r Rheolwr Cofrestredig a Staff Lleoliadau Oedolion yn ymwybodol o sut i gysylltu â'r unigolyn cyfrifol yn ystod oriau swyddfa a thu allan i hynny pe bai angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal isafswm o alwadau ffôn wythnosol/ neu

ymweliadau swyddfa gyda'r Rheolwr Cofrestredig er mwyn derbyn adborth am y gwasanaeth yn rheolaidd.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ystyried ac yn archwilio ystod o gofnodion, yn eu plith mae:

- Cofnodion am ddigwyddiadau a damweiniau
- Cofnodion ac adroddiadau am ddiogelu
- Cofnodion am Gwynion a Chanmoliaeth a chwythu'r chwiban
- Ffeiliau 'Content Manager' Gwestywyr
- Adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn dadansoddi'r canfyddiadau ac yn argymhell camau gweithredu i wella darpariaeth y gwasanaeth ac yn adrodd am y canfyddiadau a'r argymhellion mewn adroddiadau bob chwe mis sy'n cael eu rhannu â chynrychiolwyr perthnasol y Cyngor (Darparwr).

Cynhelir ymarfer sicrhau ansawdd blynyddol hefyd gan Swyddog Polisi a Sicrhau Ansawdd yr Awdurdod Lleol, ac mae'r canfyddiadau hynny ynghyd â chanfyddiadau ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion Sicrhau Ansawdd blynyddol a rennir gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a chynrychiolwyr perthnasol y Cyngor (Darparwr).